OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2953 (Cy.245)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i bennaeth wneud cais i rieni disgybl o oed ysgol gorfodol a waharddwyd fynychu cyfweliad ailintegreiddio o dan adran 102 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ("Deddf 2006"), ac yn rhagnodi'r weithdrefn y mae'n rhaid trefnu'r cyfweliad oddi tani.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth wneud cais am gyfweliad â rhiant disgybl o oed ysgol gorfodol a waharddwyd o ysgol gynradd am unrhyw gyfnod gosodedig, neu o ysgol uwchradd am gyfnod gosodedig o chwe niwrnod ysgol neu fwy. Rhaid i'r rhiant fod yn unigolyn sy'n preswylio gyda'r plentyn. Nid oes angen i bennaeth wneud cais o'r fath os yw'r gwaharddiad yn dechrau o fewn deng niwrnod i ddiwedd tymor yr haf neu os disgwylir i'r disgybl adael yr ysgol am reswm heblaw ei ymddygiad (er enghraifft os yw'r disgybl yn symud i ysgol mewn ardal wahanol).

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gael ei wneud drwy hysbysiad ysgrifenedig ac yn pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi yn yr hysbysiad hwnnw. Mae'n rhagnodi cyfnod y mae'n rhaid i'r cyfweliad ddigwydd o'i fewn ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfweliad ddigwydd ar ddiwrnod ysgol o fewn y cyfnod hwnnw, er y caiff ddigwydd ar ddiwrnod o fewn y cyfnod hwnnw nad yw'n ddiwrnod ysgol os bydd y rhiant a'r pennaeth yn cytuno ar hynny. Rhaid i'r pennaeth wneud ymdrech resymol i drefnu'r cyfweliad o fewn y cyfnod ar ddyddiad ac ar amser a awgrymir gan y rhiant. Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi dim hwyrach na chwe niwrnod cyn bod y cyfweliad i ddigwydd.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 2953 (W.245)

EDUCATION, WALES

The Education (Reintegration Interview) (Wales) Regulations 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations prescribe the circumstances in which a head teacher must request the parents of an excluded pupil of compulsory school age to attend a reintegration interview under section 102 of the Education and Inspections Act 2006 ("the 2006 Act"), and the procedure by which the interview must be arranged.

Regulation 3 requires the head teacher to request an interview with a parent of a pupil of compulsory school age who has been excluded from a primary school for any fixed period, or from a secondary school for a fixed period of six or more school days. The parent must be an individual who resides with the child. The head teacher need not make such a request if the exclusion starts within ten days of the end of the summer term or the pupil is expected to leave the school for a reason other than behaviour (for example if the pupil is moving to a school in a different area).

Regulation 4 requires that the request is made by a notice in writing and specifies what information must be contained in that notice. It prescribes a period within which the interview must take place and requires the interview to take place on a school day within that period, though it may take place on a non-school day within that period if the parent and head teacher agree. The head teacher must use reasonable endeavours to arrange the interview for a date and time within the period suggested by the parent. The notice must be given no later than six days before the interview is to take place.

Mae rheoliad 5 yn caniatáu cyfuno hysbysiad oddi wrth bennaeth o dan y Rheoliadau hyn a'r hysbysiad yn rhoi gwybod i'r rhiant am y gwaharddiad (o dan reoliadau a wnaed o dan adran 52(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002).

Mae adran 572 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu ar gyfer sut y caniateir rhoi'r hysbysiad. Caniateir ei ddanfon at y rhiant, ei adael yng nghyfeiriad arferol, neu gyfeiriad hysbys diwethaf y rhiant, neu ei anfon mewn llythyr gyda chyfeiriad arno ac y talwyd amdano ymlaen llaw i'r cyfeiriad hwnnw. Caniateir ei anfon drwy e-bost os yw'r rhiant wedi cytuno i ddefnyddio e-bost i dderbyn hysbysiadau.

Regulation 5 allows a notice from a head teacher under these Regulations to be combined with the notice informing the parent of the exclusion (under regulations made under section 52(3)(a) of the Education Act 2002).

Section 572 of the Education Act 1996 makes provision for how the notice may be given. It may be delivered to the parent, left at the parent's usual or last known address, or sent in a prepaid addressed letter to that address. It may be sent by e-mail if the parent has agreed to use e-mail to receive notices.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2953 (Cy.245)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010

Gwnaed	*10 Rhagfyr 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*14 Rhagfyr 2010*
Yn dod i rym	*5 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 102 a 181 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 5 Ionawr 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i waharddiad dros dro a osodwyd ar 5 Ionawr 2011 neu ar ôl hynny.

Dehongli

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy'n dod i ben ar ddechrau'r tymor cyntaf o'r fath i ddechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol,

ystyr "diwrnod ysgol" ("*school day*") yw diwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod.

(**1**) 2006 p.40.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Mae adran 111 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn diffinio "*maintained school*" at ddibenion y Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 2953 (W.245)

EDUCATION, WALES

The Education (Reintegration Interview) (Wales) Regulations 2010

Made	*10 December 2010*
Laid before the National Assembly for Wales	*14 December 2010*
Coming into force	*5 January 2011*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 102 and 181 of the Education and Inspections Act 2006(**1**) and now vested in them(**2**) make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Education (Reintegration Interview) (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 5 January 2011.

(2) These Regulations apply in relation to maintained schools in Wales(**3**).

(3) These Regulations apply to a temporary exclusion imposed on or after 5 January 2011.

Interpretation

2.–(1) In these Regulations–

"school day" ("*diwrnod ysgol*") means a day on which the school meets,

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") means the period beginning with the first school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to begin after the following July.

(**1**) 2006 c.40.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales in these sections were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) Section 111 of the Education and Inspections Act 2006 defines a "maintained school" for the purposes of these Regulations.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn–

(a) pan gaiff disgybl ei wahardd yn ystod diwrnod ysgol ond cyn cychwyn unrhyw sesiwn brynhawn ar y diwrnod hwnnw, mae'r diwrnod hwnnw i gael ei drin at y dibenion hyn fel y diwrnod cyntaf y mae'r gwaharddiad yn ymwneud ag ef,

(b) pan gaiff disgybl ei wahardd yn ystod diwrnod ysgol ond ar ôl cychwyn unrhyw sesiwn brynhawn ar y diwrnod hwnnw, mae'r diwrnod wedyn i gael ei drin at y dibenion hyn fel y diwrnod cyntaf y mae'r gwaharddiad yn ymwneud ag ef,

(c) caiff ysgol sy'n darparu addysg gynradd ac addysg uwchradd ei thrin fel ysgol gynradd os yw'r disgybl a waharddwyd dros dro yn cael addysg gynradd ac fel arall fel ysgol uwchradd.

Dyletswydd i wneud cais am gyfweliad ailintegreiddio

3.–(1) Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir wneud cais i riant(**1**) disgybl a waharddwyd dros dro, a'r rhiant hwnnw yn unigolyn sy'n preswylio gyda'r disgybl, fynychu cyfweliad ailintegreiddio yn yr achosion a ragnodir ym mharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), yr achosion a ragnodir yw pan fo disgybl o oed ysgol gorfodol yn cael ei wahardd dros dro ar sail ddisgyblaethol–

(a) o ysgol gynradd am unrhyw gyfnod gosodedig, neu

(b) o ysgol uwchradd am unrhyw gyfnod gosodedig o chwe niwrnod ysgol neu fwy.

(3) Nid yw achos wedi'i ragnodi–

(a) pan fo'r diwrnod cyntaf y mae'r gwaharddiad yn ymwneud ag ef yn dod o fewn deng niwrnod ysgol diwethaf y tymor diwethaf o unrhyw flwyddyn ysgol, neu

(b) pan fo'r pennaeth yn disgwyl i'r disgybl beidio â mynychu'r ysgol o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn rheoliad 4(2) am reswm nad yw'n gysylltiedig ag ymddygiad y disgybl.

Ffurf y cais ac amseriad y cyfweliad

4.–(1) Pan fo'r ddyletswydd yn rheoliad 3 yn gymwys rhaid i'r pennaeth roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rhiant o'r materion canlynol–

(a) dyddiad, amser a hyd y cyfweliad ailintegreiddio,

(b) diben y cyfweliad, ac

(c) dyletswydd y llys, wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn rhianta ai peidio mewn

(2) For the purposes of these Regulations–

(a) where a pupil is excluded during the course of a school day but before the beginning of any afternoon session on that day, that day is to be treated for these purposes as the first day to which the exclusion relates,

(b) where a pupil is excluded during the course of a school day but after the beginning of any afternoon session on that day, the following day is to be treated for these purposes as the first day to which the exclusion relates,

(c) a school which provides both primary and secondary education is regarded as a primary school if the temporarily excluded pupil receives primary education and otherwise as a secondary school.

Duty to request a reintegration interview

3.–(1) The head teacher of a maintained school must request a parent(**1**) of a temporarily excluded pupil, being an individual who resides with the pupil, to attend a reintegration interview in the cases prescribed by paragraph (2).

(2) Subject to paragraph (3), the cases prescribed are where a pupil of a compulsory school age is temporarily excluded on disciplinary grounds from–

(a) a primary school for any fixed period, or

(b) a secondary school for any fixed period of six or more school days.

(3) A case is not prescribed where–

(a) the first day to which the exclusion relates falls within the last ten school days of the last term in any school year, or

(b) the head teacher expects the pupil to cease to attend the school within the period described in regulation 4(2) for a reason unconnected with the pupil's behaviour.

Form of request and timing of interview

4.–(1) Where the duty in regulation 3 applies the head teacher must give notice in writing to the parent of the following matters–

(a) the date, time and duration of the reintegration interview,

(b) the purpose of the interview, and

(c) the duty of the court, in deciding whether to make a parenting order in respect of a parent

(**1**) Mae adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio '*parent*' at ddibenion y rheoliadau hyn.

(**1**) Section 576 of the Education Act 1996 defines a 'parent' for the purpose of these regulation.

perthynas â rhiant o dan adran 20 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), i roi ystyriaeth i fethiant gan y rhiant heb esgus rhesymol i fynychu cyfweliad ailintegreiddio pan gaiff gais i wneud hynny yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r cyfweliad gael ei gynnal ar ddiwrnod ysgol o fewn y cyfnod–

(a) sy'n dechrau ar y diwrnod cyntaf y mae'r gwaharddiad yn ymwneud ag ef, a

(b) sy'n gorffen ar y pymthegfed diwrnod ysgol sy'n dod ar ôl y diwrnod olaf y mae'r gwaharddiad yn ymwneud ag ef (pa un ai a yw'r diwrnod ysgol hwnnw yn dod o fewn yr un tymor ai peidio).

(3) Cyn rhoi'r hysbysiad rhaid i'r pennaeth wneud ymdrech resymol i drefnu'r cyfweliad ar ddyddiad ac ar amser (o fewn y cyfnod) a awgrymir gan y rhiant.

(4) Caniateir cynnal y cyfweliad ar ddiwrnod o fewn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) nad yw'n ddiwrnod ysgol os bydd y pennaeth a'r rhiant yn cytuno ar hynny.

(5) Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi dim hwyrach na chwe niwrnod ysgol cyn dyddiad y cyfweliad ailintegreiddio.

Cyfuno hysbysiadau

5. Caniateir cyfuno hysbysiad sy'n ymwneud â chyfweliad ailintegreiddio a roddir yn unol â rheoliad 4 gyda hysbysiad a roddir i'r rhiant yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 52(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002(**2**) (personau rhagnodedig sydd i gael gwybodaeth am unrhyw waharddiad).

under section 20 of the Anti-social Behaviour Act 2003(**1**), to take into account a failure by the parent without reasonable excuse to attend a reintegration interview when requested to do so in accordance with these Regulations.

(2) Subject to paragraph (4), the interview must be held on a school day within the period–

(a) beginning with the first day to which the exclusion relates, and

(b) ending with the fifteenth school day falling after the last day to which the exclusion relates (whether or not that school day falls in the same term).

(3) Before giving the notice the head teacher must use reasonable endeavours to arrange the interview for a date and time (within the period) suggested by the parent.

(4) The interview may be held on a day within the period referred to in paragraph (2) which is not a school day if the head teacher and parent so agree.

(5) The notice must be given no later than six school days before the date of the reintegration interview.

Combination of notices

5. A notice relating to a reintegration interview given pursuant to regulation 4 may be combined with a notice given to the parent in accordance with regulations made under section 52(3)(a) of the Education Act 2002(**2**) (prescribed persons to be given information relating to any exclusion).

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

10 Rhagfyr 2010

Minister for Children, Education and Lifelong Learning, one of the Welsh Ministers

10 December 2010

©℗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2003 p.38.

(**2**) 2002 p.32.

(**1**) 2003 c.38.

(**2**) 2002 c.32.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 Rhif 2953 (Cy.245)

2010 No. 2953 (W.245)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010

The Education (Reintegration Interview) (Wales) Regulations 2010

£4.00

W787/12/10 ON